

Welsh A: literature – Standard level – Paper 1
Gallois A : littérature – Niveau moyen – Épreuve 1
Galés A: literatura – Nivel medio – Prueba 1

Wednesday 4 May 2016 (afternoon)
Mercredi 4 mai 2016 (après-midi)
Miércoles 4 de mayo de 2016 (tarde)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

Instructions to candidates

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Write a guided literary analysis on one passage only. In your answer you must address both of the guiding questions provided.
- The maximum mark for this examination paper is **[20 marks]**.

Instructions destinées aux candidats

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Rédigez une analyse littéraire dirigée d'un seul des passages. Les deux questions d'orientation fournies doivent être traitées dans votre réponse.
- Le nombre maximum de points pour cette épreuve d'examen est de **[20 points]**.

Instrucciones para los alumnos

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Escriba un análisis literario guiado sobre un solo pasaje. Debe abordar las dos preguntas de orientación en su respuesta.
- La puntuación máxima para esta prueba de examen es **[20 puntos]**.

Gan ddilyn yr arweiniad, ysgrifennwch ddadansoddiad llenyddol ar **un** darn yn unig. Yn eich ateb, rhaid ichi drafod y ddau gwestiwn arweiniol a roddwyd.

1.

Ddydd Sadwrn nesa aeth Mam ar y bÿs i Gaerdydd i brynu sgidie a gadawodd hi frechdane i ginio. Roedd hi'n heulog, a penderfynes i fynd i'r tip i drial mas y binociwlars o'n i wedi'u benthyg 'da Wncwl Jac. [...]

5 Y binociwlars ga'th fynd i'r bag gynta. Dodes i'r brechdane mewn bocs plastig wedyn, a banana hefyd, ac roedd rhaid i fi dorri'r banana yn ei hanner iddo fe gael ffito'n iawn. Hwnna ga'th fynd i'r bag wedyn. Tynnes i garton o sudd afal mas o'r ffrij, a Twix hefyd, a mynd i'r bedrwm i hôl y llyfr a'r feiro a'r ffôn bach roedd Mam wedi'i brynu i fi ar 'mhen-blwydd a rhoies i'r cwbl lot yn y bag. Ond tynnes i'r ffôn mas eto i neud yn siŵr bod digon o bŵer ynddo fe.

10 "Wy off nawr, Dad," medde fi, trwy ddrws y bac, achos roedd Dad yn doddi câns yn yr ardd.
"Wrth dy hunan?"
"Mae'r ffôn 'da fi."

Aeth i'w boced a thynnu mas ddwy bunt a gweud wrtha i am brynu hufen iâ, se'r fan yn dod heibio, neu se fe'n digwydd bod mas.

"Mas?" wedes i.

15 Wedodd e bo' fe'n gorffodd mynd lawr i'r *wholesalers* i brynu *parts*. Edrychodd e ar ei watsh wedyn. "Falle bydda i mas am sbel," wedodd e. Achos taw dydd Sadwrn oedd e, a gêm ymlaen yn y dre, a ciws rhyfedda yn yr *wholesalers*. "Ond mae'r ffôn 'da ti?"

"Ydy", wedes i.

"Na fe, te," wedodd Dad. A bant â fi.

20 O'n i ddim wedi meddwl mynd 'da Lowri'r tro hyn, achos doedd dim digon o fwyd 'da fi, a o'n i ddim isie rhannu'r Twix, na'r banana chwaith. Ond roedd hi'n sefyll yn y stryd yn siarad 'da chwaer Gary Simmons pan ddes i mas o'r tŷ. A phan wedodd chwaer Gary Simmons "Beth sy yn y bag?" roedd rhaid i fi weud wrthi, a sôn am y binociwlars hefyd, achos o'n i'n ofan bydde hi'n gweud wrth ei brawd bo' fi wedi bod yn cwato pethe. Doedd dim dewis 'da fi wedyn. Daeth
25 Lowri gyda fi. "I edrych trwy'r binociwlars", wedodd hi. A wedodd chwaer Gary Simmons bydde hi'n wafo arno ni o'r gwaelod.

Pan ddaethon ni i ben y tip, agores i'r bocs brechdane a chynnig un i Lowri, i gael busnes y bwyd mas o'r ffordd, ond doedd hi ddim yn lico *peanut butter* felly roedd rhaid i fi gynnig hanner banana iddi, a wedyn yr hanner arall, achos o'n i'n dal i fwyta'r brechdane a hithe heb
30 ddim byd. Ond cadwes i'r Twix yn y bocs a rhoi'r clawr arno'n dynn, i ga'l *treat* bach yn nes ymla'n. Yna rhoies i'r gwelltyn yn y carton a gelon ni bob o sip cyn tynnu'r binociwlars mas. [...]

"Gad i fi weld," wedodd Lowri, achos roedd chwaer Gary Simmons yn wafo arni o'r gwaelod. A gorffod i fi roi'r binociwlars iddi y tro hwn iddi ga'l wafo'n ôl. Ond cymeres i nhw'n ôl
wedyn [...]. Agores i'r bocs a thynnu'r Twix mas ac roedd rhaid i fi rannu hwnna 'da Lowri hefyd

35 achos doedd dim byd arall ar ôl. A dou bisyn yr un, achos taw Twix mawr oedd e.

Dyna pryd mae Dad yn dod mas o'r tŷ. Rwy'n clywed y drws yn slamo. Rwy'n sefyll lan a chodi fy llaw i ddala'i sylw, ond mae e'n edrych y ffor' arall. Rwy'n ystyried gweiddi ond galla i weld Gary Simmons yn croesi'r tir wast a dwi ddim isie i hwnna glywed. Rwy'n edrych ar Dad eto. Mae e'n agor y gât erbyn hyn a rwy'n gwybod beth mae e'n mynd i neud nesa,
40 mae'n mynd i gerdded at y car, achos dyna beth wedodd e gynne, bo' fe'n gorffod hôl *parts* o'r *wholesalers*.

Ond dyw e ddim yn mynd yn agos at y car. Mae e'n croesi'r hewl. Yna mae'n diflannu, sa i'n gwybod i le, achos mae'r tai yn y ffordd, a rwy'n ffaelu gweld dim. Rwy'n sefyll ar flaene 'nhraed. Rwy'n symud sha'r chwith wedyn, i gael gweld mwy o'r stryd, ac mae Lowri'n gweiddi,
45 "Welest ti rywbeth?" Rwy'n siglo 'mhen. Mae hi'n gweiddi eto. "Do, fe welest ti rywbeth. Beth welest ti?" A rwy'n gweiddi'n ôl, "Naddo. Weles i ddim byd..."

A rwy'n grac bod y Twix wedi mynd yn feddal yn yr haul ar ôl i fi gadw fe yn y ffrij, achos rwy'n lico cnoi'r siocled bant gynta a llio'r caramel wedyn a mynd at y fisgien ar y diwedd, achos bod honna'n *crisp* ac yn wahanol i'r pethe erill. Dyna i gyd galla i neud heddi yw 'i chnoi hi fel
50 se hi'n fisgien gyffredin, a'r siocled a'r caramel yn mynd yn slwtsh yn fy ngheg. A gorffod ei llyncu hi'n rhy glou wedyn, achos erbyn hyn rwy wedi ffono Dad ar y mobeil a mae ei lais e'n gweud, "This is Bill Glover, Electrician. Sorry, I'm too busy to come to the phone, please leave a message and I'll ring you back as soon as I can..." [...]

Rwy'n bwyta'r Twix arall yn fwy araf, tamed bach ar y tro, a gadel i'r siocled doddi yn fy
55 ngheg. A rwy'n trial ei gadw fe yn y paced fel bod y siocled ddim yn mynd ar fy mysedd i, achos se hynny'n digwydd byddwn i siŵr o fod yn eu sychu nhw ar fy nhrwser a chael row 'da Mam. A dyna pryd wela i Dad eto, reit o danof fi erbyn hyn, yn sefyll yng ngardd gefen Mrs Fenby Number Four.

Mae Mrs Fenby yn dod mas wedyn, a rhywbeth yn ei llaw, a rwy'n weddol siŵr taw cwpan
60 yw e, hyn yn oed heb y binociwlars, achos y ffordd mae hi'n ei ddala fe, y ffordd mae ei braich hi wedi plygu. Ond rwy'n edrych trwy'r binociwlars, jyst i neud yn siŵr. Mae cwpan 'da Dad hefyd, galla i weld hynny nawr, achos mae e wedi troi rownd a galla i'i weld e'n glir. A se fe'n pipo lan rwy'n siŵr galle fe weld Lowri a finne hefyd. Ond edrych ar Mrs Fenby mae Dad. Mae Mrs
65 Fenby'n agor drws y tŷ gwydr ac yn mynd miwn. A falle bod Dad am wneud yr un peth, achos mae'n dechre ei dilyn hi. Ond yn sydyn reit dyma fe'n stopyd le mae e ac yn troi'n ôl. Mae e'n dod i'r cwpan lawr rywle, bownd o fod, ond sa i'n gwybod ble, achos dim ond ei ben galla i'i weld erbyn hyn. Y pen, a'r glust, ac ar bwys y glust, ei law dde. A gyda bo' fe'n dod i'i law wrth ei glust mae'r ffôn yn canu yn fy llaw inne.

"Aaron?" Dad sy 'na. "Ti 'na, Aaron?"

70 "Ydw."

"Ti'n OK?"

"Ydw."

Galla i weld Mrs Fenby yn dod mas o'r tŷ gwydr, yn edrych ar Dad. Mae Dad yn
siglo'i ben. "Ife ti ffonodd gynne fach?"

75 "Ble rwy'ti, Dad?" [...]

"Rwy draw yn yr *wholesalers*... Bydda i'n ôl nawr... Rwy jyst..."

Galla i weld Mrs Fenby nawr, yn cerdded ato fe. Mae Dad yn codi'i law, yn siglo'i ben.

Detholiad allan o "Twix" gan Tony Bianchi, *Taliesin*, Cyf 148 (2013)

- (a) Beth a ddysgwn am gymeriad y plentyn?
- (b) Pam yn eich barn chi y penderfynodd yr awdur gyflwyno'r stori o safbwynt plentyn?

2.

Nostos*

- Rhyw ffraeo wnaethon ni, a finnau'n
mynd a chodi 'mhac, heb air
yn fwy, er mwyn cael clirio'r aer,
mor bell ag y gallwn fynd, ac ro'n i'n falch;
5 yn falch o gael diosg dillad dy wenau di.
- Mor braf oedd hi i eistedd yn yr haul
heb argoel awel oerach ar fy ngwar,
ymdrochi yn nieithrwch lle, a throi
- cornel stryd fel troi tudalen
10 mewn nofel newydd,
yn lle ail-rwygo clustiau cŵn
ein naratif ni.
- Ond un bore bach, ar ôl noson
anesmwyth mewn putain o lety,
15 a theimlo'n fudur braidd yng ngolau dydd,
- canfûm, yn syn, na allwn ganfod
yr hyn a ddeisyfwn yng ngwaelod fy mhac,
a chlywais, o nunlle rywsut, lithriad dy lais
rhwng clincian cwpanau coffi ar sgwâr y dre',
- 20 dod i d'adnabod mewn wynebaw
eraill, yng nghorneli llychlyd bariau
blêr, a oedd hanner ynghau,
- a mwg sigarêts yn gwrlid hiraethus
oherwydd i ninnau hefyd rannu
25 ambell i fygyn slei yn nyddiau ein hieuenctid...
- ...ac eto, roedd y cwrw yma'n
dal i fod yn oerach rywsut.
- Dim ond gormes gwyrddni'r ochr draw i'r ffens
ddaeth â fi'n ôl at fy nghoed yn y pen draw,
30 gant-a-ryw-gymaint o filltiroedd i ffwrdd o'r môr
ac wedi fy mygu gan anadl lychlyd y tir.
- Finnau yn ysu drachefn am hagrach dy heli,
am wymon dy wallt,
wedi hen gweryla â'r heulwen ddi-baid,
- 35 ac felly, er i mi hedfan allan,
yn mesur pob milltir flinedig ar ei hyd, ar drên
yn cropian yn f'ôl i ymbil am faddeuant.

Llŷr Gwyn Lewis, *Barddas* (2011)

* Nostos: o'r iaith Roeg yn golygu dychwelyd adref o daith hir

- (a) Pa brofiadau y sonnir amdanynt sydd yn arwain y bardd at well dealltwriaeth o'i wrthrych ac o'u perthynas?
 - (b) Sut a pha mor llwyddiannus y mae'r bardd yn creu darlun o'i daith emosiynol yn y gerdd?
-